

## CYFRES CARDIOLEG

### Atgyfeiriadau i Ofal Eilaidd gan Feddygon Teulu

Dydd Mercher 29 Mehefin 2022

13.00 - 14.00

Cadeirir gan Dr Nicola Flower, Arweinydd DPP Meddygon Teulu  
ar gyfer De Orllewin Cymru.

#### Trosolwg

##### **Yr hyn y mae Cardiologydd yn dymuno ei weld mewn Atgyfeiriad Cardioleg.**

Ar ôl naw mis o'm secondiad yn arwain y prosiect i adfer Cardioleg yn sgil COVID o fewn Hywel Dda, nid wyf erioed wedi bod mewn man mor freintiedig. Mae wedi fy ngalluogi i ddeall ein cryfderau a'n gwendidau wrth ddarparu'r gwasanaeth cardioleg gorau posibl i gleifion allanol.

Nid yw'n syndod bod y pandemig COVID presennol wedi gosod her enfawr i'r gwasanaethau arferol ar gyfer cleifion cardioleg allanol. Fodd bynnag, mae hefyd wedi rhoi cyfle gwych i ni ailfeddwl ac i ailgynllunio'r hyn sy'n helpu ein cleifion i wneud y gorau o'r ymgynghoriadau. Rydym wedi cael cyfle i adolygu'r hyn roedd wedi gweithio'n dda a'r hyn roedd angen ei wella. Yn ogystal, rydym wedi dysgu sut i wneud y gorau o'r gwasanaethau cardiaidd amrywiol yn y gymuned ac mewn ysbytai.

Mae atgyfeiriadau gofal sylfaenol o ansawdd da yn hynod bwysig i ganiatáu brysbennu a blaenoriaethu diogel yn enwedig pan fo adnoddau yn gyfyngedig i gleifion allanol. Mae hefyd yn hynod bwysig pan fydd y rhan fwyaf o ymgynghoriadau cychwynnol yn cael eu cynnal mewn lleoliad rhithwir. Gall atgyfeiriad cryno o'r pwyntiau pwysicaf yn yr hanes ynghyd ag archwiliad cardiaidd â phroffion sylfaenol ond pwysig wneud byd o wahaniaeth. Gall ganiatáu asesiadau prydlon yn y clinig cardioleg arbenigol gorau mewn modd amserol.

Byddwn yn rhoi amlinelliad o'r cyflwyniadau cardiaidd cyffredin ac yn trafod y wybodaeth ddelfrydol sydd ei hangen o'ch atgyfeiriadau er mwyn gwneud y daith yn un mor ddi-dor a buddiol â phosibl i'n cleifion allanol. Byddwn yn dangos beth sy'n gweithio orau trwy ddefnyddio rhai astudiaethau achos go iawn.

Ni fu erioed amser pwysicach i ofal sylfaenol ac eilaidd gydweithio wrth inni ddod allan o'r pandemig, ac mae sicrhau bod ein gofal wedi ei amserlenni yn iawn yn gam hynod bwysig i'r cyfeiriad cywir.

Bydd amser yn cael ei neilltuo i ateb unrhyw gwestiynau a all godi.

**Siaradwr:** Dr Lena Izzat, Cardiologwr Ymgynghorol ac Arweinydd Ffibriliad Atriaidd

**Ar gyfer:** Meddygon teulu. Mae croeso mawr i weithwyr meddygol proffesiynol perthynol eraill fel Fferyllwyr ac Uwch-ymarferwyr Nyrsio Cymunedol fod yn bresennol.

**Y Newid:** Cyflwyniad rhyngweithiol wedi'i ddilyn gan gyfle i gyfeirio cwestiynau at y siaradwr arbenigol yn ystod y webinar.

Uned Cefnogi Ailddilysu, Addysg a Gwella Iechyd Cymru,  
Tŷ Dysgu, Cefn Coed, Nantgarw. CF15 7QQ.